



**Dogfen Reoleiddio
POLISIŨ A GWEITHDREFNAU**

Polisi Rheoli Digwyddiadau Rheoleiddio

(16 Mai 2017)

Rheoli fersiynau

Cymeradwywyd y fersiwn (2) hon o bolisi Rheoli Digwyddiadau Rheoleiddio Cymwysterau Cymru ar 16 Mai 2017 gan Fwrdd Cymwysterau Cymru.

Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu datganiadau polisi ac, os bydd o'r farn ei bod yn briodol o ganlyniad i adolygiad, bydd yn paratoi datganiadau diwygiedig. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r ddogfen hon o leiaf bob pedair blynedd. Gallai adolygiad o'r fath ystyried effeithiolrwydd y polisi a'i gymhwysedd parhaus. Disgwylir yr adolygiad nesaf erbyn Mawrth 2021 fan bellaf. Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Dylech anfon eich sylwadau i policy@qualificationswales.org.

Egwyddorion Cyffredinol y polisi Rheoli Digwyddiadau Rheoleiddio

Mae Adran 47(1) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (y "Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru gyhoeddi datganiad o'i bolisi mewn perthynas â gorfodi.

Nod y weithdrefn hon yw nodi'r protocolau a'r prosesau ar gyfer rheoli digwyddiadau rheoleiddio o fewn Cymwysterau Cymru.

Lluniwyd y weithdrefn hon er mwyn sicrhau bod unrhyw un a hoffai hysbysu Cymwysterau Cymru o ddigwyddiad rheoleiddio yn deall y weithdrefn gychwynnol ar gyfer rheoli'r broses hon. Gellir disgrifio digwyddiad rheoleiddio fel unrhyw weithred neu beth sydd wedi/a all ddigwydd ac a all/allai gael effaith andwyol ar ddysgwyr neu'r corff dyfarnu. Gall digwyddiad rheoleiddio, felly, fod yn achos o dorri unrhyw un o'r Amodau Cydnabod Safonol (neu ddogfen reoleiddio arall), achos o dorri diogelwch, dod o hyd i wallau mewn cymwysterau neu ddeunyddiau asesu, materion sy'n ymwneud â dyfarnu cymhwyster, neu unrhyw beth arall sydd â'r potensial i gael effaith andwyol, ond nid yw'n gyfyngedig i hyn.

Mae'r weithdrefn hon yn ymdrin â digwyddiadau rheoleiddio sy'n digwydd neu sy'n ymwneud â gallu corff dyfarnu neu ganolfan i ddylunio, cyflwyno neu ddyfarnu ei gymwysterau ei hun i safonau rheoleiddio. Nid yw'r weithdrefn hon yn ymdrin â rheoli digwyddiadau corfforaethol megis salwch ymhlith staff neu'r ffordd y caiff cyfleusterau eu rheoli. Nid yw'r weithdrefn ychwaith yn ymdrin â digwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â rôl Cymwysterau Cymru wrth reoleiddio cyrff dyfarnu a chymwysterau, fel y nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015¹.

CYNNWYS

CAMAU CYNTAF

RHEOLI DIGWYDDIADAU RHEOLEIDDIO

CYFATHREBU

CWBLHAU'R DIGWYDDIAD

¹ <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted>

Camau Cyntaf

1. Dylai corff dyfarnu hysbysu Cymwysterau Cymru bob tro y bydd digwyddiad rheoleiddio, neu ddigwyddiad rheoleiddio posibl, wedi'i nodi, yn unol ag amod B3.1 yr Amodau Cydnabod Safonol². Gall methu â hysbysu Cymwysterau Cymru o ddigwyddiad rheoleiddio hysbys arwain at gymryd camau rheoleiddio yn erbyn y corff dyfarnu. Byddem yn disgwyl i'r corff dyfarnu ymchwilio i'r digwyddiad yn drylwyr hefyd, gan ddefnyddio ei brosesau rheoli digwyddiadau ei hun.

Er mwyn hysbysu Cymwysterau Cymru o ddigwyddiad rheoleiddio, e-bostiwch: ymholiadau@cymwysteraucymru.org

2. Dylai hysbysiad gynnwys y wybodaeth ganlynol:
 - y dyddiad y daethoch yn ymwybodol o'r digwyddiad,
 - natur y digwyddiad,
 - y cymwysterau yr effeithir arnynt,
 - nifer y canolfannau yng Nghymru yr effeithir arnynt,
 - nifer y dysgwyr yng Nghymru yr effeithir arnynt³,
 - manylion unrhyw gamau a gymerir ar hyn o bryd,
 - manylion unrhyw gamau i'w cymryd yn y dyfodol ac amserlen arfaethedig
 - manylion ynghylch pryd y bydd Cymwysterau Cymru yn cael ei ddiweddarau nesaf am y digwyddiad.
3. Ar ôl i'r hysbysiad o'r digwyddiad ddod i law, bydd Cymwysterau Cymru yn cydnabod hynny cyn pen 5 diwrnod gwaith. Ar ôl hynny, bydd yn asesu pob digwyddiad rheoleiddio fesul achos er mwyn penderfynu p'un a fydd ymchwiliad mewnol gan y cyrff dyfarnu i amseriad ac effaith y digwyddiad yn ddigon, neu a fydd angen i Cymwysterau Cymru uwchgyfeirio'r digwyddiad.

Rheoli Digwyddiadau Rheoleiddio

4. Caiff penderfyniad i ddilyn y weithdrefn hon, a bod digwyddiad wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd, ei wneud gan aelod o'r Tîm Rheoli Digwyddiadau – Monitro a Chydymffurfio yn y lle cyntaf. Bydd y Tîm Rheoli Digwyddiadau – Monitro a Chydymffurfio yn ymdrin â'r mwyafrif o ddigwyddiadau, ac mae'n cynnwys:
 - Pennaeth Monitro a Chydymffurfio,
 - Rheolwr Cymwysterau,
 - Swyddog Cymwysterau.

² <http://qualificationswales.org/media/1608/160303-v3-0-interim-standard-conditions-of-recognition-final.pdf> – B3.1: Rhaid i gorff dyfarnu hysbysu Cymwysterau Cymru yn brydlon pan fydd ganddo reswm dros gredu bod unrhyw beth wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd a allai gael effaith andwyol.

³ 'Dysgwyr yng Nghymru' yw'r dysgwyr hynny y mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau ar gyfer eu cymhwyster yn cael eu cynnal yng Nghymru.

5. Os bydd angen uwchgyfeirio'r digwyddiad, bydd y Pennaeth Monitro a Chydymffurfio yn asesu'r hysbysiad ac yn penderfynu i ba lefel i'w uwchgyfeirio. Yn yr achosion mwyaf difrifol, gall aelod o'r Tîm Gweithredol gymryd cyfrifoldeb am reoli'r digwyddiad, gan gynnwys penderfynu ar y camau i'w cymryd. Mewn achosion o'r fath, gellir cynnwys aelodau ychwanegol yn y tîm ymateb – er enghraifft, Cyfarwyddwyr Cyswllt, y Pennaeth Cyfathrebu ac unrhyw aelodau eraill o staff yn ôl yr angen.
6. Pan fydd yr hysbysiad cychwynnol o'r digwyddiad yn dod i law, bydd y Tîm Rheoli Digwyddiadau yn asesu graddau'r digwyddiad a graddau tebygol yr ymateb rheoleiddio. Bydd y tîm yn penderfynu:
 - a oes digwyddiad wedi digwydd neu'n mynd i ddigwydd,
 - natur yr ymateb a'r gweithgareddau sydd eu hangen,
 - y broses o reoli gweithgareddau busnes fel arfer,
 - cynnwys ac ymgysylltu â phartïon eraill megis cyrff dyfarnu, rheoleiddwyr eraill a Llywodraeth Cymru.
7. Bydd ymateb cychwynnol i'r hysbysiad o'r digwyddiad yn cael ei anfon gan y Tîm Rheoli Digwyddiadau cyn pen 10 diwrnod gwaith. Drwy gydol y digwyddiad, gellir cynnwys aelodau eraill o staff Cymwysterau Cymru yn y broses i helpu a chynorthwyo'r rhai sy'n ymwneud â'r digwyddiad drwy ddarparu cymorth logistaidd, cymorth gweinyddol neu gymorth hyblyg arall. Gall hyn gynnwys darparu cymorth logistaidd neu arbenigol i weithgareddau sy'n mynd rhagddynt mewn perthynas â'r digwyddiad.
8. Wrth i'r gwaith o asesu neu adolygu'r digwyddiad fynd rhagddo, gall Cymwysterau Cymru ofyn am wybodaeth neu dystiolaeth gan y corff dyfarnu, neu randdeiliaid perthnasol eraill. Pan ofynnir am wybodaeth neu dystiolaeth o'r fath, rhaid i gyrrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill sicrhau bod y deunydd y gofynnwyd amdano yn cael ei roi'n brydlon ac yn llawn; gall unrhyw oedi wrth roi'r deunydd olygu na ellir cwblhau asesiad neu ymchwiliad i'r digwyddiad mewn ffordd hwylus, ac efallai y bydd angen cymryd camau pellach.
9. Gall Cymwysterau Cymru ofyn am ragor o ddeunyddiau nes y bydd yn fodlon nad yw'r digwyddiad wedi cael unrhyw effaith andwyol, neu fod unrhyw effaith andwyol ar hyn o bryd neu yn y dyfodol wedi cael ei lleihau hyd eithaf gallu'r rhanddeiliaid perthnasol.

Cyfathrebu

10. Mewn achosion lle y ceir sylw yn y cyfryngau, neu lle y bydd sylw yn y cyfryngau'n bosibl, bydd Tîm Cyfathrebu Cymwysterau Cymru yn cael ei gynnwys yn y broses. Mewn achosion o'r fath, bydd y Tîm Rheoli Digwyddiadau yn cynnwys y Tîm Cyfathrebu yn y broses cyn gynted â phosibl. Gall fod angen i'r Pennaeth Cyfathrebu benderfynu ar y trywydd i'w ddilyn a gwneud hynny

wrth ymdrin â'r cyfryngau, neu lunio a gweithredu strategaeth gyfathrebu fewnol ac allanol.

11. Yn y mwyafrif o ddigwyddiadau, bydd y Pennaeth Monitro a Chydymffurfio yn cadw perchenogaeth ar y broses reoli; mewn achosion difrifol, gall y Cyfarwyddwr Gweithredol – Rheoleiddio roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Prif Weithredwr, a all ymgysylltu â'r Cadeirydd a, lle bo angen, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd.
12. Bydd y Tîm Rheoli Digwyddiadau yn penderfynu ar y ffordd o gyfathrebu ag unrhyw gyrff dyfarnu yr effeithir yn uniongyrchol arnynt, a bydd yn bwynt cyswllt y gall rhanddeiliaid roi gwybodaeth iddo neu ofyn cwestiynau iddo wrth i'r digwyddiad fynd rhagddo.

Cwblhau'r Digwyddiad

13. Dim ond pan fydd Cymwysterau Cymru o'r farn bod digwyddiad wedi'i gwblhau neu ei ddatrys y caiff digwyddiad ei ystyried yn y fath fodd. Hynny yw, pan fydd Cymwysterau Cymru yn fodlon nad yw wedi neu'n gallu cael unrhyw effaith andwyol; neu pan fydd digwyddiad wedi cael effaith andwyol, bod pob rhanddeiliad perthnasol wedi lleihau'r effaith hyd eithaf ei allu ac nad oes angen cymryd camau pellach. Ar ôl hynny, bydd y Tîm Rheoli Digwyddiadau yn cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol ac yn ei hysbysu bod y cofnod o'r digwyddiad wedi cael ei gau.
14. Ar ôl i'r digwyddiad gael ei ddatrys, gall y Tîm Rheoli Digwyddiadau gynnal cyfarfod terfynol i nodi unrhyw wersi a ddysgwyd neu i drafod arfer gorau. Mewn achosion mwy uchel eu proffil, gellir cynnwys aelod o'r Tîm Gweithredol yn y broses hefyd. Bydd y tîm yn cwblhau unrhyw weithgareddau mewn perthynas â'r digwyddiad. Bydd hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw gamau gweithredu dilynol megis rhoi'r gwersi a ddysgwyd ar waith neu gymryd camau yn erbyn corff dyfarnu, a gellir rhoi sylw i'r rhain mewn gweithgareddau monitro yn y dyfodol. Byddwn yn disgwyl hefyd i'r corff dyfarnu nodi unrhyw wersi a ddysgodd ei hun, a gweithredu unrhyw argymhellion mor gyflym â phosibl – gellir monitro hyn fel rhan o'r broses Rheoli Digwyddiadau, neu fel rhan o weithgaredd monitro yn y dyfodol a gynhelir gan y Tîm Monitro a Chydymffurfio.